

EIN GALLUOGWYR

Galluogydd	Disgrifiad
Cynlluniau Clwstwr Ardaloedd Lleol	Cynlluniau a ddatblygir ar lefel ardal leol sy'n seiliedig ar asesiadau o anghenion ardaloedd lleol. Mae cynlluniau'n ymateb i'r ffaith bod gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol yn diwallu'r rhan fwyaf o anghenion iechedd a gofal mewn cymunedau lleol.
Rhaglenni Cenedlaethol	Wedi'u sefydlu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfarwyddyd a chymorth canolog i drawsnewid gwasanaethau lleol. Mae rhaglenni'n galluogi ffocws cenedlaethol i ymchwilio i heriau gwasanaeth systemig, datblygu datrysiadau ar raddfa fawr, cymorth i drawsnewid gwasanaethau a rhoi sicrwydd o ran tegwch y gwasanaeth a gynigir ar draws Cymru.
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, byrddau iechedd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt hybu lles y rhai sydd angen gofal a chefnogaeth, neu ofalwyr lle bo angen cymorth.
Strategaeth Gwella Ansawdd BIPBC	Ein strategaeth i gyflawni gofal trugarog diogel ac effeithiol wedi'i ddangos trwy well canlyniadau a phrofiad cleifion.
Ein Dyfodol Digidol BIPBC: Map trywydd digidol ar gyfer iechedd yng Ngogledd Cymru 2022/24	Nod y strategaeth yw galluogi cleifion a gofalwyr i ddefnyddio dulliau digidol i reoli eu gofal ac i roi cymorth i staff o ran cael y mwyaf o'r dechnoleg sydd ar gael i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.
Stronger Together / Mewn Undod Mae Nerth	Rhaglen BIPBC, yn sgil ymgysylltu a chydgyllunio helaeth â staff, a arweiniodd at ddatblygu ein Model Gweithredu newydd, sydd â'r bwriad o sicrhau bod ein strwythur yn glir, yn dryloyw a'i fod yn ategu at weithio'n effeithiol.
Strategaeth Pobl a Chynllun BIPBC 2022/2025	Wrthi'n cael ei datblygu a bydd yn ategu at roi Stronger Together / Mewn Undod Mae Nerth ar waith. Yn hollbwysig i lwyddiannau Strategaeth Gwasanaethau Clinigol gan ei bod yn cydnabod ac yn ceisio mynd i'r afael â'r angen am wasanaethau diwylliannol i drawsnewid gwasanaethau a'u gwella.
Cynllun Ariannol BIPBC 2022/25	Ein cynllun ariannol tair blynedd manwl wedi'i alinio â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) ac sy'n hollbwysig i hwyluso'r gwaith trawsnewid a gwella sydd ei angen i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Clinigol
Strategaeth Ystadau, 2019	Mae gan BIPBC un o'r portffolios eiddo mwyaf yng Nghymru. Mae ein Strategaeth Ystadau'n manylu ar yr

	ystad sydd ar gael i ni a sut rydym yn bwriadu ei ddefnyddio yn y dyfodol.
Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru, 2012	Bydd Strategaeth Drawslwyddraethol ar gyfer iechyd meddwl a lles Llywodraeth Cymru, yn allweddol i roi gofal holistaidd sy'n canolbwyntio ar gleifion, gwell canlyniadau a phrofiad i ddefnyddwyr gwasanaeth.
Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC) Cynllun Comisiynu Integredig (ICP) 2022/2025	Mae WHSSC yn comisiynu ystod ddiffiniedig o wasanaethau arbenigol ar ran yr holl Fyrddau Iechyd. Mae'r ICP yn manylu ar gynlluniau am y flwyddyn sydd i ddod, cynllunio gwaith ar gyfer y ddwy flynedd yn olynol, ac mae'n bwysig i ategu at y gwaith o ddatblygu llwybrau gofal o'u dechrau i'w diwedd
Bwriad Strategol Cydbwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru	Cynllun strategol a ddatblygwyd mewn partneriaeth â chydweithwyr o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, sy'n disgrifio sut byddwn yn cydweithio i ddiwallu anghenion iechyd poblogaeth Canolbarth Cymru.
Mwy na Geiriau, 2012	Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru
Cynllun Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2020/2024	Fframwaith i'n helpu i sicrhau bod modd ystyried cydraddoldeb yn llawn yn ein sefydliad ac i ddylanwadu ar benderfyniadau ar bob lefel ar draws y Bwrdd Iechyd.
Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru, 2021/2030	Cynllun Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chyfraniad GIG Cymru at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Ystyriaeth bwysig o ran Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
Hwb Cydlynw Ymchwil, Arloesi a Gwellu, Prosiect Cydweithredol Gogledd Cymru	Mae'r hwb yn hyrwyddo ac yn cydlynw gweithgarwch ymchwil, arloesi a gwellu o ran iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector ar draws Gogledd Cymru.
Dyletswydd y Sector Cyhoeddus	Yn ogystal â gwella iechyd a darparu gwasanaethau clinigol a gofal, mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd ehangach tuag at y sector cyhoeddus i gefnogi polisi cenedlaethol, er enghraifft, mewn perthynas â materion fel hybu cydraddoldeb a hawliau dynol, yr amgylchedd, datblygu cynaliadwy, y Gymraeg ac o ran symud grwpiau sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu blaen.